

Diweddariad Blynyddol PPC – 2023/2024



Croeso i ddiweddariad blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), sy'n rhoi cipolwg i chi o'r gwaith y mae PPC wedi'i wneud dros y deuddeg mis diwethaf.

Mae sesiynau hyfforddi PPC yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir ac mae'r presenoldeb a'r ymgysylltiad yn rhagorol. Cynhaliwyd pedair sesiwn hyfforddi yn ystod 2023/24 yn unol â chynllun hyfforddi cymeradwy 2023/24, a rhoddwyd gwahoddiad i aelodau unigol y Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn i bob un o'r sesiynau. Unwaith eto, gwahoddwyd cyflwynwyr allanol i roi cyflwyniadau ac mae adborth cadarnhaol yn parhau i gael ei dderbyn. Hoffem ddiolch i bawb sy'n parhau i wneud y sesiynau hyfforddi hyn yn llwyddiant.

Mae manylion ein cynllun hyfforddi ar gyfer 2024/25 yn ogystal â'n cynllun gwaith ar gyfer 2024/25 wedi'u cynnwys yn ein cynllun busnes, sydd i'w weld ar wefan PPC: [Cronfa Bensiwn Cymru](https://cronfa.bensiwn.cymru) | [Cartref \(partneriaethpensiwn.cymru.org\)](https://cartref.partneriaethpensiwn.cymru.org).

Ar 31 Mawrth 2024, mae'r gronfa wedi cynyddu ei chyfran o asedau cyfun i c74% (sy'n cynnwys y Buddsoddiadau goddefol). Ym mis Mehefin 2023, lansiodd PPC is-gronfa Ecwiti Gweithredol Byd-eang Cynaliadwy gwerth £1.2 biliwn, gyda'r wyth Cronfa yng Nghymru yn cymryd rhan. Mae'r is-gronfa newydd hon yn golygu bod Russell Investments yn rheoli datrysiad ecwiti gweithredol cynaliadwy aml-reolwr amrywiol a adeiladwyd yn unol â gofynion pwrpasol PPC ac mae'n cynnig yr hyblygrwydd i esblygu wrth i ofynion PPC newid, neu wrth i'r dirwedd gynaliadwy barhau i ddatblygu. Ym mis Chwefror 2024, cynhaliodd Waystone a Russell Investments Ddiwrnod Rheolwyr Ecwiti Gweithredol Byd-eang Cynaliadwy lle cyflwynodd rheolwyr i swyddogion ac aelodau Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Gyda chymorth bfinance, gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddylunio a gweithredu cynigion buddsoddi marchnadoedd preifat PPC. Yn dilyn lansio'r rhaglenni buddsoddi Seilwaith a Chredyd Preifat yn 2022/23, ym mis Medi 2023 lansiodd cronfa Ecwiti Preifat PPC gyda'n partner dyrannu, Schroders Capital. Ym mis Mawrth 2024 cynhaliwyd y cyfarfod cyffredinol blynyddol wyneb yn wyneb cyntaf ar gyfer buddsoddiadau Seilwaith PPC. Cyfarfu swyddogion ac aelodau Cyd-bwyllgor Llywodraethu â phartner dyrannu seilwaith pengaead PPC, sef GCM Grosvenor, a'r rheolwyr seilwaith penagored (IFM, Octopus a CBRE) i dderbyn diweddariadau ar ddefnyddio cyfalaf a datblygiadau marchnad allweddol.

O ran Eiddo Tiro, lansiodd caffaeliadau ym mis Tachwedd 2023 i nodi partneriaid i fynd i'r afael â gofynion Awdurdodau Cyfansoddol ar draws eiddo Craidd y DU, eiddo Byd-eang, a buddsoddiadau lleol yng Nghymru. Roedd y caffaeliadau hyn yn her ddiddorol o ystyried y buddsoddiadau sylweddol presennol sydd gan Awdurdodau cyfansoddol yn y dosbarth asedau hwn. Disgwylir i benodiadau gael eu cadarnhau ym mis Awst 2024.

Mae sefydlu'r rhaglenni buddsoddi hyn yn y farchnad breifat, ynghyd â chydweithrediad ynni adnewyddadwy presennol Cymru â Capital Dynamics, yn gyfle cyffrous i Gronni asedau CPLIL i sicrhau buddsoddiad effaith Gymdeithasol ac Amgylcheddol digynsail yng Nghymru ac ar draws y DU. Edrychwn ymlaen at ddarparu mwy o fanylion am y buddsoddiadau hyn a'u heffaith leol wrth i'r portffolios dyfu.

Parhaodd yr adferiad ecwiti tua diwedd 2023 i 2024 gan sbarduno mynegeion meincnod yn yr Unol Daleithiau ac Ewrop i gyrraedd y lefelau uchaf erioed. Cafodd buddsoddwyr eu cynnal gan enillion gwell na'r disgwyl a disgwyliadau bod y cynnydd yng nghyfradd llog y banc canolog yn agosáu at ei uchafbwynt. Fodd bynnag, roedd yr helynt o'r newydd yn y sector bancio ac amodau credyd tynnach ymhlith benthydwyr yn pwysu ar barodrwydd i dderbyn risg. Yn Ewrop, gwanhaodd bondiau'r llywodraeth ym mis Ionawr 2024 yn dilyn arwyddion gan Fanc Canolog Ewrop y byddai cyfraddau llog yn cael eu gostwng yn haf yn hytrach na gwanwyn 2024. Fodd bynnag, cynyddodd chwyddiant is ddisgwyliadau ynghylch gostwng cyfraddau yn gynharach, gan sbarduno gostyngiad mewn arenillion bondiau. Yn erbyn y cefndir ansicr hwn, tanberfformiodd y mwyafrif o'r cronfeydd ecwiti yn erbyn eu meincnod, ac eithrio cronfa ecwiti'r DU a adferodd ychydig tua diwedd 2023 yn dilyn adroddiadau ynghylch lleddfu chwyddiant y DU. Roedd asedau incwm sefydlog yn anwadal dros y cyfnod o 12 mis, ond roedd y rhan fwyaf o'r cronfeydd wedi gwella erbyn diwedd y cyfnod yn sgil tystiolaeth bod chwyddiant yn gostwng ac wrth i ddata ddangos economi wydn. Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad yr is-gronfeydd ecwiti ac incwm sefydlog dros y 12 mis diwethaf:

	Perfformiad PPC dros 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024 (Ffioedd Net)				
	Dyddiad Dechrau	Asedau Dan Reolaeth (£'000)	Cronfa %	Meincnod %	Cymharol %
Is-gronfeydd Ecwiti					
Twf Byd-eang	Chwefror 2019	3,585,966	15.81	20.60	(4.79)
Cyfleoedd Byd-eang	Chwefror 2019	3,289,782	19.94	20.60	(0.66)
Cyfleoedd y DU	Hydref 2019	743,500	10.10	8.43	1.67
Marchnadoedd Datblygol	Hydref 2021	260,181	3.92	7.44	(3.52)
Gweithredol Cynaliadwy *	Mehefin 2023	1,571,073	14.95	19.09	(4.14)
Is-gronfeydd Incwm Sefydlog					
Credyd y DU	Awst 2020	708,077	7.64	6.78	0.86
Bond Llywodraeth Fyd-eang	Awst 2020	488,949	1.53	2.05	(0.52)
Credyd Byd-eang	Awst 2020	1,033,998	4.69	4.87	(0.18)
Cronfa Credyd Aml-asedau	Awst 2020	732,567	10.21	9.35^	
Bond Elw Absoliwt	Medi 2020	572,939	6.76	7.26^	

Ffynhonnell: Adroddiad Northern Trust fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024

* wedi lansio ym Mehefin 2023, data ers ei dechrau

^ Mae'r rhain yn dangos targedau perfformiad y Cronfeydd Credyd Aml-asedau a Bond Elw Absoliwt

Yn ystod 2023/24, cyflwynodd PPC ei thrydydd Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol gan barhau â'i statws fel llofnodwr Côt Stiwardiaeth y DU. Dros y flwyddyn, cwblhaodd PPC ei Hadroddiad Hinsawdd Cymru gyfan cyntaf hefyd ([Cronfa Bensiwn Cymru | Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan \(partneriaethpensiwncymru.org\)](#)) yn asesu cysylltiadau â hinsawdd ar draws yr holl asedau sydd gan Gronfeydd Cymru. Mae nifer o argymhellion yn yr adroddiad bellach yn cael eu datblygu, gan gynnwys esblygu cynigion buddsoddi PPC. Bydd yr ymarfer hwn nawr yn cael ei gynnal bob tair blynedd gan gynhyrchu adroddiad lefel Cronfa yn ystod y blynyddoedd rhwng hynny, a disgwylir i'r cyntaf gael ei gwblhau erbyn diwedd 2024. Gan ei bod yn awyddus i ddeall ystyriaethau natur o fewn ei hasedau, cynhaliodd PPC archwiliad dwfn o'i chysylltiad â risg datgoedwigo ar draws ei his-gronfeydd ecwiti rhestredig gweithredol, maes y mae PPC yn parhau i ymgysylltu â Maint Cymru yn ei gylch.

Fel rhan o'i hymrwymiad i stiwardiaeth, mae PPC yn ymgysylltu â Robeco fel ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Chwaraeodd PPC ran weithredol ym mhanel cleientiaid Robeco yn 2023, a lansiodd nifer o themâu ymgysylltu (Bioamrywiaeth Morol; Cemegion Peryglus ac ymgysylltiad sofran) yn dilyn mewnbwn uniongyrchol gan PPC. Mae'r tablau isod yn crynhoi'r gweithgarwch Pleidleisio ac Ymgysylltu a gynhaliwyd gan Robeco ar ran PPC dros y 12 mis diwethaf.

Y pleidleisiau a fwriwyd	15,496	Nifer y cyfarfodydd	1,238
O blaid	13,316 (86%)	Gyda'r rheolwyr	13,213 (85%)
Yn erbyn	1816 (12%)	Yn erbyn y rheolwyr	2,270 (15%)
Arall	364 (2%)	Amherthnasol	13 (<0.1%)
Cyfanswm	15,496	Cyfanswm	15,496

	Cyfanswm
Yr Amgylchedd	194
Cymdeithasol	100
Llywodraethu	77
Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC)	153
Dadleuon Byd-eang	68
Cysylltiedig â phleidleisio	12
Cyfanswm	604

Ffynhonnell: Robeco; mae canrannau'r cyfansymiau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf; newidiodd yr adroddiadau pleidleisio ac ymgysylltu ar ddiwedd mis Mawrth 2024, mae ystadegau wedi'u hymgorffori cyn belled ag y bo modd i adlewyrchu'r newid.

Mae taith PPC yn parhau ac mae cynnydd da yn cael ei wneud ar draws pob agwedd ar y gronfa ac edrychwn ymlaen at ddatblygiad pellach y gronfa dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae lefel y cydweithredu rhwng yr wyth Awdurdod Cyfansoddol yn parhau i fod yn gryf a hoffem ddiolch iddyn nhw am eu cefnogaeth a'u cyfraniad parhaus.